# Y Dinesydd

Mawrth 2013 Rhif 375 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# TAFWYL – YMA O HYD

Dechrau Chwefror daeth y newyddion bod Cyngor Caerdydd yn bwriadu torri cyllideb Tafwyl yn gyfan gwbl – £20,000, yn ogystal â thorri cyllideb gwasanaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc o 10% (colled o £14,000). Roedd y penderfyniad nid yn unig yn peryglu dyfodol yr Ŵyl yn ei ffurf bresennol, ond yn tanseilio ymrwymiad Cyngor Caerdydd i'r Iaith Gymraeg, sydd yn destun pryder mawr i ni a chymunedau Cymraeg Caerdydd.

Yn fuan yn dilyn y cyhoeddiad yma cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw'n rhoi £20,000 i'r digwyddiad. Rydym yn ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews am ei gefnogaeth ariannol, sydd yn sicrhau Tafwyl 2013, a hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr Ŵyl a'i chyfraniad amhrisiadwy i'r Gymraeg yn ein prifddinas yn ogystal ag adnabod y potensial i ddatblygu'n ddigwyddiad cenedlaethol.



*Leighton Andrews yn annerch Lansiad Tafwyl 2013 ar Ddydd Gwyl Dewi*

Er ein bod wedi derbyn nawdd gan Lywodraeth Cymru eleni, bregus yw dyfodol Tafwyl heb gyllid gan Gyngor Caerdydd a rydym yn gofyn i unigolion neu gymdeithasau i wneud cyfraniad. Mae cyfrannu swm, dim ots pa mor fach, yn ffordd arbennig o effeithiol o gefnogi Tafwyl, gan alluogi ni i gynllunio at ddyfodol iach i'r Ŵyl lwyddiannus hon. I gydnabod ein gwerthfawrogiad bydd pob cefnogwr yn cael gwahoddiad i lansiad swyddogol Tafwyl yng Nghastell Caerdydd ar ddiwrnod yr Ŵyl, ynghyd â mynediad am ddim i un gweithgaredd o'ch dewis chi yn ystod yr wythnos 14 - 21 Mehefin.



Os hoffech wneud un cyfraniad, neu gyfrannu'n fisol, llenwch y ffurflen sydd yn y rhifyn hwn a danfonwch y ffurflen yn ôl at Sara Jones, Menter Caerdydd, 42 Lambourne Crescent, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GG. Diolch yn fawr o flaen llaw am eich cefnogaeth.

**Llinos Williams**
029 2068 9888
www.MenterCaerdydd.org



# Y Dinesydd


Golygyddion y rhifyn hwn:
**Gwilym ac Eirian Dafydd**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Sian Parry-Jones**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Ebrill erbyn 27 Mawrth i:
87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd CF10 4NH
Ffôn: 07985 043633
ebost: sepj@cardiffbay.clara.co.uk

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government


# CÔR MEIBION TAF

Sefydlwyd Côr Meibion Taf yn nhymor y gaeaf 2004/5 gan Rob Nicholls, brodor o Benclawdd. Fe welodd Rob bod bwlch yng Nghaerdydd gan nad oedd yna gôr meibion uniaith Gymraeg. Dros y blynyddoedd mae'r côr wedi tyfu mewn niferoedd i dros 80 o aelodau. Yn ymarfer bob nos Sul yn Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd am 7.30, mae'r côr wedi profi llwyddiant mewn eisteddfodau dros y blynyddoedd gan gynnwys ennill gwobr gyntaf i gorau meibion dan 45 o leisiau yn Eisteddfod Caerdydd 2008, cyn ennill y brif wobr i gorau meibion dros 45 o leisiau yn Eisteddfod Glyn Ebwy 2010.



Côr Meibion Taf o flaen Neuadd Albert. *Llun: Irfon Bennett*

Yn ogystal â chystadlu mewn eisteddfodau mae'r côr wedi perfformio mewn cyngherddau dros Gymru gyfan gan gynnwys Canolfan y Mileniwm a Stadiwm y Mileniwm (cyn gemau rygbi rhyngwladol). Mae'r côr hefyd wedi canu yn Gŵyl Corau Meibion Cymru Llundain, yn Neuadd Albert. Yn Hydref 2011 teithiodd y côr i Terrevieja yn Sbaen gan berfformio i dros fil o bobl mewn dwy gyngerdd.

Yn Ebrill eleni bydd y côr yn teithio i Ganada i berfformio yng Nghymanfa Ganu Genedlaethol Gogledd America, a hefyd nifer o gyngherddau yn ardal Niagara a Toronto.


Cyn teithio i Ganada bydd y côr yn perfformio mewn dwy gyngerdd. Y cyntaf yng nghwmni Côr Meibion Treorci yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd dan arweinyddiaeth Alwyn Humphreys i godi arian i elusen Bobath ar ddydd Sul 17 Mawrth. Ar nos Iau 21 Mawrth bydd y côr yn perfformio mewn cyngerdd yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd gyda'r tenor talentog Trystan Llŷr Griffiths a'r soprano o Awstralia Justine Viani (tocynnau ar gael o'r Coleg).

Mae'r côr yn bwriadu recordio ei CD cyntaf eleni felly edrychwch mas yn y siopau cyn bo hir am gofnod parhaol o dalentau'r côr.

Mae wastad croeso mawr i aelodau newydd i ymuno gyda'r côr gan gofio bod bywyd cymdeithasol y côr yn fywiog.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT



Rob Nicholls wrth organ Neuadd Albert.
*Llun: Irfon Bennett*

# Syr John Meurig Thomas – gwerthfawrogiad o'i fywyd a'i waith

***gan y Parchedig Ieuan Davies.***
***Cyhoeddwyd gan yr awdur a Gwasg Dinefwr. £15***

Roedd Nos Fercher, Tachwedd 28ain, 2012 yn noson nodedig yn hanes Capel Bethania, Tymbl a hanes y pentref. Hyd y gwn i, dyma'r unig dro iddo fod yn lleoliad achlysur trosglwyddo i'r byd gyfrol werthfawrogiad bywyd un o'r pentref, yntau yn un o gewri rhyngwladol cyfoes gwyddoniaeth. Roedd pob agwedd o'r achlysur yn cyfrannu'n gynnes at falchder y fro mewn awydd i gydnabod camp John Meurig. Penllanw'r dathliad oedd ei anerchiad didwyll a diymhongar.

Mae rhannau arweiniol y llyfr yn cynnwys, (a) esboniad gan yr awdur o darddiad ei ymgais, sef, anogaeth ei gyfaill y Parchedig Huw Ethall i fwrw ati, (b) cyflwyniad gwresog gan Y Parchedig Maurice Loader a fu'n gefn i John a'i deulu mewn hindda a drycin dros y blynyddoedd, (c) cerdd gan Gwyn Thomas, Bangor, sy'n cynnwys y llinellau

Weithiau, weithiau,
Yn ddiau, fe ddaw
O rywle, i dywyllwch dynion,
Wreichion i gynnau goleuni.

A bu rhai, yr ychydig, trwy'r oesau
Yn gyfryngau i'r cyfryw oleuni,
......................................
John Meurig,
Yr wyt ti yn un o'r ychydig

Mae cynnwys y llyfr yn nodi, gyda llu o luniau a dyfyniadau o lythyron unigolion a theyrngedau, brif gyfnodau bywyd Syr John. Dechreuir gyda'i eni (1932) a'i fagwraeth yng Nghwm Gwendraeth, ymlaen i'r coleg yn Abertawe yn fyfyriwr, i Fangor yn ddarlithydd, i Aberystwyth yn Athro Cemeg, i Gaergrawnt yn Athro, i Lundain yn Gyfarwyddwr y Sefydlaid Brenhinol, i Gaergrawnt yn Feistr Coleg Peterhouse, ac ymddeol yn 2002.

Rhaid llongyfarch ac edmygu'r awdur am drylwyredd ei ymchwil a llyfnder ei fynegiant. Nid yw'n gwthio ei hun, ond yn rhoi lle i eraill ddweud eu profiadau a'u hatgofion o fod yng nghwmni JMT. Mae'r cyflenwad hwn yn gwarantu bywiogrwydd diddordeb i'r darllenydd, i raddau helaeth oherwydd i JMT symud mewn cynifer o gylchoedd amrywiol, yn ymestyn o Glwb Criced y Tymbl i gynadleddau rhyngwladol gydag enwogion gwyddoniaeth a gwleidyddiaeth, megis Angela Merkel, hithau hefyd yn gemegydd.

Daw hynawsedd JMT yn llachar o bob tudalen. At hyn, amlygir cyfoeth ei fywyd gartref gyda'i wraig a'u dwy ferch mewn pennod gyfan, MARGARET, sy'n olrhain eu carwriaeth ar hyd y ffordd at ei marwolaeth yn 2002. Yn ôl Gwyn Thomas mewn cerdd goffa,

Yn ein meddyliau ni,
Bawb a'i hadnabu hi,
Y mae o hyd belydrau
Ei bywyd hawddgar hi.

Yn 2010 priododd John Meurig gyda Jehane, y ddau wedi profi colli cymar ac yn mentro ar ddedwyddwch eto.

---

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 18fed o Chwefror daeth John Idris Jones, cyfarwyddwr rhaglen Ynys Ynni Môn yr holl ffordd o'r ynys honno i'n hannerch ar y testun "Datblygiadau Carbon isel ar Ynys Môn". Rhestrodd nifer ddatblygiadau cyffroes ar yr ynys neu yn y môr o'i chwmpas fydd yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae y llanw o amgylch gogledd yr ynys mor gryf fel bod tyrbeini tanddwr yn ffordd effeithiol iawn o harnesu egni môr ond bydd eu hadeiladu yn prosiect heriol iawn! Soniodd hefyd am y tyrbeini gwynt, mae yna ffermydd ar dir a môr ar hyn o bryd ond bydd fferm wynt Rhiannon, rhwng Môn a Manaw, yn llawer mwy na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd yn cynhyrchu pŵer sylweddol a bydd rhaid gwneud llawer o waith diweddaru ar adeiladwaith y grid cenedlaethol i gludo'r trydan i'r cwsmeriaid dros Brydain.

Soniodd John hefyd am y cynlluniau am yr Wylfa newydd, ac fel bod cwmnïau byd eang yn dod at ei gilydd i gydweithio ar y prosiect anferth hwn. Disgwylir creu dros chwe mil o swyddi yn ystod y cyfnod o adeiladu yr adweithyddion, a disgwylir cyflogi mil i gynnal yr adweithydd. Pwysleisiodd fel bod y datblygiadau enfawr yma yn bwysig i greu swyddi ac i hybu economi Ynys Môn. Ond bydd rhaid rheoli y cynlluniau i gyd yn ofalus i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r swyddi yn mynd i drigolion yr ynys a Gogledd Cymru, a bydd hyn yn ei dro yn galluogi i bobl ifanc yr ardal aros yno, yn lle symud i Gaerdydd a dinasoedd eraill! Diddorol iawn oedd cyfeiriad John Idris at y sylw fydd yn cael ei roi i effaith y datblygiadau arfaethedig ar oroesiad a ffyniant y Gymraeg. Gall gynllunio gofalus fod yn fuddiol iawn i ddyfodol yr iaith yn yr ardal.

Felly darlith ddiddorol iawn - y tro nesaf dychwelwn i fyd gwyddoniaeth bur a bioleg y gell.

# Cymrodorion Caerdydd

Patagonia oedd thema cyfarfod mis Chwefror o'r Cymrodorion a gyfarfu yn Salem, Treganna. Bu'r gynulleidfa luosog yn gwrando ar ddau gyflwynydd.

Yn gyntaf cafwyd cyflwyniad darluniadol gan Anna Powys, o Ysgol Plas Mawr, am ymweliad yr Urdd â'r Wladfa yn 2012. Mewn cyflwyniad caboledig iawn trafododd Anna sawl agwedd ar brofiadau'r ymwelwyr gyda phlant a phobl ifanc y Wladfa. Cyfleodd yn effeithiol iawn natur gymhleth amodau ymarferol ymwneud y genhedlaeth iau â'r Gymraeg a lle'r iaith yn eu hunaniaeth arbennig hwy. Coron ar yr ymweliad oedd llwyddiannau'r criw yn Eisteddfod y Wladfa!

Dr Walter Brooks, o Brifysgol Caerdydd, oedd ail gyflwynydd y noson. Archentwr sydd wedi dysgu Cymraeg yw Dr Brooks ac mae'n awdurdod ar hanes y wasg Gymraeg yn y Wladfa, sef testun ei gyflwyniad. Y cylchgrawn cyntaf i ymddangos yno oedd *Y Brut* yn 1868. Fe'i cynhyrchwyd yn gyfan gwbl mewn llawysgrifen!! Ymddangosai yn fisol ar bedair tudalen ar hugain o bapur ysgrifennu. Y tâl blynyddol amdano oedd deuddeg tudalen o bapur ysgrifennu, ac ymrwymiad i anfon pob rhifyn ymlaen i'r anheddle nesaf o fewn cyfnod penodedig. Y golygydd arloesol oedd R.J. Berwyn.

Y papur newydd cyntaf i gael ei argraffu yn y Wladfa oedd *Ein Breiniad* yn 1878. Fe'i golygwyd a'i argraffu gan Lewis Jones (a brentisiwyd yn argraffydd yng Nghymru), ac yn 1891 cynhyrchodd bapur newydd arall, *Y Dravod*. Erys *Y Drafod* mewn cylchrediad, a daeth Dr Brooks a chopïau o rifynnau diweddar gydag ef. Gwelodd yr ugeinfed ganrif ymddangosiad dau bapur byrhoedlog, sef *Gwerinwr* a *Y Gwyliedydd*. Cynhwysai rhain erthyglau mewn Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg.

Diolchodd y Llywydd, Dr E. Wyn James, i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau difyr, a llongyfarchodd Walter Brooks ar ennill doethuriaeth yn ddiweddar.

## Tafwyl 2013

Dechrau Chwefror daeth y newyddion bod Cyngor Caerdydd yn bwriadu torri cyllideb Tafwyl yn gyfan gwbl – £20,000, yn ogystal â thorri cyllideb gwasanaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc gan 10%. Roedd y penderfyniad nid yn unig yn peryglu dyfodol yr ŵyl yn ei ffurf bresennol, ond yn tanseilio ymrwymiad Cyngor Caerdydd i'r laith Gymraeg, sydd yn destun pryder mawr i ni a chymunedau Cymraeg Caerdydd. Erbyn hyn mae pryderon ariannol gŵyl Tafwyl wedi cilio ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi y byddan nhw'n rhoi £20,000 i'r digwyddiad. Rydym yn ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews am ei gefnogaeth ariannol, sydd yn sicrhau Tafwyl 2013, a hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr Ŵyl a'i chyfraniad amhrisiadwy i'r Gymraeg yn ein prifddinas yn ogystal ag adnabod y potensial i ddatblygu'n ddigwyddiad cenedlaethol. Er ein bod wedi derbyn nawdd gan Lywodraeth Cymru eleni, bregus yw dyfodol Tafwyl heb gyllid gan Gyngor Caerdydd a rydym yn gofyn i unigolion neu gymdeithasau i wneud cyfraniad. Mae cyfrannu swm, dim ots pa mor fach, yn ffordd arbennig o effeithiol o gefnogi Tafwyl, gan alluogi ni i gynllunio at ddyfodol iach i'r Ŵyl lwyddiannus hon. I gydnabod ein gwerthfawrogiad bydd pob cefnogwr yn cael gwahoddiad i lansiad swyddogol Tafwyl yng Nghastell Caerdydd ar ddiwrnod yr Ŵyl, ynghyd â mynediad am ddim i un gweithgaredd o'ch dewis chi yn ystod yr wythnos. Os hoffech wneud un cyfraniad, neu gyfrannu'n fisol, llenwch y ffurflen sydd yn y rhifyn hwn a danfonwch y ffurflen yn ôl ar Sara Jones, Menter Caerdydd, 42 Lambourne Crescent, Parc Ty Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GG. Diolch yn fawr o flaen llaw am eich cefnogaeth.

## Rhaglen Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Menter Caerdydd, mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd wedi cydlynu rhaglen o gyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gyfer unigolion sy'n gweithio, sy'n astudio neu'n gobeithio dilyn gyrfaoedd ym meysydd gofal plant, addysg, chwarae neu waith ieuenctid. Mae nifer o'r cyrsiau'n cynning achrediad Lefel 2, neu dystysgrif/gymhwyster gan Gyrff Cenedlaethol a bydd y ffioedd cofrestru yn amrwyio o £30 i £80. Mae'r cyrsiau'n cynnwys Hylendid Bwyd, Amddiffyn Plant, Iechyd a Diogelwch, Hyrwyddo Ymddygiad Positif, Cymorth Cyntaf, Gweithio gyda Anableddau, Dyfarnu Rygbi URC a mwy, ac ar gael i bawb. Mae'r rhaglen lawn ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Fenter – mentercaerdydd.org. Am fwy o wybodaeth neu i dderbyn y wybodaeth yn electroneg cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org. Mae'r holl gyrsiau'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd.

## Twitter, Facebook a You Tube

Cofiwch bod gan y Fenter gyfrifon Twitter, Facebook ac You Tube, a rydym yn diweddaru'r tudalennau'n aml, felly mae'n ffordd hawdd i glywed am yr holl newyddion diweddaraf.

## Bŵt Camp

Sesiynau ffitrwydd Bŵt Camp gyda'r hyfforddwraig ffitrwydd Catrin Ahmun. Bob Nos Fawrth, rhwng 6.30pm a 7.30pm yng Nghaeau Llandaf (cyfarfod ger Caffi Castan). Cwrs 10 wythnos yn dechrau Nos Fawrth, Ebrill 16 (bydd egwyl hanner tymor Sulgwyn). £40 am y cwrs 10 wythnos. Ewch i wefan y Fenter am fwy o wybodaeth. Croeso cynnes i bawb.

## Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal Nos Sul, Mawrth 24 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis!

## Cwrs Bygi Heini

Cwrs 10 wythnos newydd yn dechrau Ebrill 12ed yng Nghaeau Llandaf (cwrdd yn Caffi Castan) ar fore Dydd Gwener 10.30am-11.30am. Hyfforddwr y cwrs fydd Sian Thomas. Bydd y sesiynau'n cynnwys cerdded hamddenol a chyflym a bydd ymarferion amrywiol i gryfhau a thonio'r cyhyrau. Mae'r cwrs yn addas ar gyfer mamau a thadau. £45.50 am y cwrs. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, ewch i'r wefan neu cysylltwch â ffionrhisiart@mentercaerdydd.org /029 2068 9888.

## Croeso i Sara Mai a Ffion Rhisiart

Croeso i Sara Mai a Ffion Rhisiart sydd wedi ymuno â ni yn y Fenter yn ystod mis Chwefror. Bydd Sara, sy'n wreiddiol o Harlech, yn gweithio fel Swyddog Cynorthwyol i Tafwyl, a Ffion, yn wreiddiol o'r ddinas ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Plasmawr, yn gweithio fel Swyddog Teulu a Marchnata. Mae'r ddwy swydd am gyfnod penodol o chwe mis yr un yn rhan o rhaglen Twf Swyddi Cymru Llywodraeth Cymru sydd yn helpu rhai sydd rhwng 18 a 24, yn ddiwaith ac eisiau cyfle i ennill profiad gwaith.

## Hanner Tymor Chwefror

Cafwyd hanner tymor prysur eto yn ystod mis Chwefror. Cynhaliwyd 2 Gynllun Gofal, 4 safle Bwrlwm, a nifer o weithadai amrywiol gan gynnwys Coginio Tsieniaidd, Canŵio a Gymnasteg. Rydym wrthi'n barod yn llunio amserlen brysur ac amrywiol arall ar gyfer y Pasg! Bydd y wybodaeth i gyd ar ein gwefan yn fuan.

# Colofn G.R.

Mae hi'n fis Mawrth yn barod a Dydd ein Nawdd Sant wedi ei ddathlu ledled Cymru a thu hwnt. Mae arwyddion fod y Gwanwyn ar ei ffordd ac mae'r dydd yn ymestyn fesul cam ceiliog ac mae'r Cennin Pedr a'r Saffrwm yn dechrau harddu'r gerddi a'r parciau. Mae hi wedi bod yn Aeaf eitha caled a diflas rhwng yr eira, y rhew, glaw, llifogydd, cenllysg, a mellt a tharanau! Ond mae'r gwaethaf drosodd siwr o fod a gallwn edrych ymlaen rwan at dywydd gwell.

Mae hi'n dymor eisteddfodau cylch a sir Mudiad yr Urdd i ddewis plant a phobl ifanc i fynd yn eu blaenau i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro dros y Sulgwyn. Pob llwydd i bawb sy'n cystadlu. Mae hi'n destun syndod pob blwyddyn i weld y safon uchel yn y gwahanol gystadleuthau. Er ein bod yn wlad fach mae'r wlad yn gyforiog o ddawn mewn amryw feysydd.

Yn y byd chwaraeon yn ogystal mae gennym ni bencampwyr. Pwy na all anghofio gorfoledd Aled Wyn Davies yn y Chwaraeon Para Olympaidd pan enillodd Fedal Aur a beth am ddawn pobl fel Shane Williams odd yn gwefreiddio pawb wrth ei wylio ar y maes rygbi yn gwibio ac ochrgamu i sgorio ceisiadau. Yna, beth am Ryan Giggs sy'n dal i chwarae pêl droed ar y safon uchaf er ei fod yn 39 oed bellach. Un arall o fechgyn Caerdydd ydy Craig Bellamy sy wedi dychwelyd i'w ddinas enedigol i gynorthwyo tîm pêl-droed y ddinas i esgyn i'r un Gynghrair Uwch ag Abertawe. Ac wrth gwrs mae'r anhygoel Gareth Bale o'r Eglwys Newydd sy'n chwarae i Tottenham Hotspur ac yn gwefreiddio'r cefnogwyr o wythnos i wythnos. Mae Ysgol Glantaf hefyd wedi cynhyrchu chwaraewyr rygbi o fri megis y brodyr Robinson a Jamie Roberts a Rhys Patchell y seren newydd yn nhîm Y Gleision.

Eleni, mae Pentre Gerddi yn Rhiwbeina yn dathlu ei ganmlwyddiant a diau yn ystod y flwyddyn cynhelir nifer o ddigwyddiadau i ddathlu'r achlysur. Dyma'r pentre a roddodd gartre i lawer o enwogion y genedl megis Dr Kate Roberts, Yr Athro R. T. Jenkins, Yr Athro W J Gruffydd, Alun Llywelyn Williams, Dr Iorwerth Peate, Ffransis Paine a Jack Jones ac i chi ddarllenwyr llengar mae tipyn o atgofion am fyw yn Rhiwbeina a Chaerdydd yn y llyfrau canlynol: "Gwanwyn yn y Ddinas" gan Alun Llywelyn Williams; "Edrych yn ôl" R. T. Jenkins; "Rhwng dau fyd" Iorwerth Peate a "Rhiwbeina Garden Village" gan Wynford Davies.

Y mis nesa bydd "Y Dinesydd" yn ddeugain oed ac mae lle i ymfalchio bod y papur wedi goroesi er gwaethaf pawb a phopeth! Dyma'r papur bro hynaf yng Nghymru a arweiniodd i ysbrydoli ardaloedd eraill i ddilyn esiampl y brifddinas. Dan ni'n ddyledus i Dr Merêd Evans am ei weledigaeth yn mynd ati i sefydlu'r papur hefo criw o bobl frwd megis Norman Williams y Golygydd cyntaf. Ein cyfarchion a diolch i chi Merêd a Phyllis yng Nghwm Ystwyth!

Byddai'n anrheg ben blwydd derbyniol pe bai pawb sy'n darllen Y Dinesydd yn gallu perswadio un person arall yr un i dderbyn y papur a "Gwnewch y pethau bychain" meddai'n Nawdd Sant a dyma un ffordd hawdd i chi gyflawni dymuniad Dewi! Felly ewch ati!

# Ôl-Lwybrau

I blentyn yn y Barri, byd arall oedd Caerdydd. Ambell waith yn unig y bydden ni'n mynd yno. Mae gen i frith gof o ddisgyn oddi ar y bws wrth y wal anifeiliaid, a chael diod a theisen yn y Kardomah wrth aros am y bws yn ôl, ond dyna'i gyd.

Pwy angen mynd i Gaerdydd wedi'r cyfan, roedd y môr gyda ni! Dod am y diwrnod yr oedd pobl eraill, mewn siarabáng, a ninnau'n eistedd ar wal yr ardd yn eu gwylio'n pasio un ar ôl y llall, ac yn mynd adre gyda'r nos. Gallen ni fynd lawr i'r ynys am dro unrhyw bryd, yn enwedig yn y gaeaf pan oedd popeth yn dawel, a neb arall yn mentro yno. Neu yn fwy aml, draw â ni i Cold Knap, i'r pwll nofio lle'r oedd fy modryb yn cadw'r ciosg gwerthu diodydd a hufen ia, a cherdded wedyn ar hyd y traeth i Borthceri.

Roedden ni'n byw 'lan y Colcot' ar gyrion y dref, ac mae fy atgofion yn syndod o wledig. Hel mwyar duon yn y cloddiau, a chwarae rhwng yr ysgubau adeg y cynhaeaf. Y 'combine harvester' cyntaf yn dod a difetha'r gêm honno. Gweld llo bach yn y cae dros y ffordd, cerdded draw i eglwys fach Merthyr Dyfan, mynd â sled yn y gaeaf i lethrau'r cwm. Highlight Lane, cyn codi'r stâd newydd o dai, briallu wrth y nant a choeden onnen wrth fuarth y ffarm.

A byd dwyieithog oedd hwn yn ei hanfod. Cymraeg yn yr ysgol a'r ysgol Sul, a rhywfaint o Gymraeg gartref, ond Saesneg yn y stryd gyda'r plant eraill, a Saesneg gyda Nana a Grampa a'r teulu estynedig. Ninnau'n troi o'r naill i'r llall heb feddwl ddwywaith, yn gwbl gyfforddus a naturiol.

**Gwen Awbery**

## *Cydymdeimlwn â*

- theulu'r ddiweddar Sally Tomas, gynt o Riwbeina, bu farw yn 92 oed ar 28 Ionawr. Gwraig y diweddar Hywel a mam Alun ac Iwan. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 12 Chwefror.
- teulu'r diweddar Barchedig Noel Evans a fu farw ar 28 Ionawr. Priod Mair a thad Ann a Meinir. Bu'r angladd yng Nghapel Minny Street ac Amlosgfa'r Ddraenen ar 14 Chwefror.
- teulu'r diweddar Tom Evans, Penarth. Priod Freda a thad Catrin ac Eleri. Cyn Brifathro ysgolion Millbank Trelai, Bryntaf a Choed y Gof. Hunodd ar 7 Chwefror yn Ysbyty Prifysgol Cymru. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 19 Chwefror.
- teulu'r ddiweddar Heulwen Thomas, y Felinheli, gynt o Landaf. Priod y diweddar David J. W. Thomas, mam Deri a'i wraig Megan a nain Cynon. Bu farw ar 16 Chwefror. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys y Crwys ac Amlosgfa'r Ddraenen ar 4 Mawrth.
- teulu'r ddiweddar Margaret Eluned Evans a hunodd yn dawel yng Nghartref Tŷ Enfys, Caerdydd ar 18 Chwefror. Priod y diweddar David. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Fair, yr Eglwys Newydd ac Amlosgfa'r Ddraenen ar Fawrth y Cyntaf.
- teulu'r ddiweddar Winifred Myra Llewellyn, Penarth, gynt o Faesteg, gwraig Vernon a mam Huw. Bu farw ar 16 Chwefror. Bu'r angladd yng Nghapel Bethel, Penarth ac Amlosgfa Llangrallo ar 4 Mawrth.

# COLOFNYDD Y MIS

## Ion Thomas

Briwsion yn unig a gawsom fel gwlad a phrif ddinas gyda'r gemau Olympaidd. Yn awr ymddengys bod y prif gwrs ar fin cael ei archebu a'i baratoi ar gyfer Caerdydd 2026. Mae hyn oherwydd penderfyniad Cyngor Caerdydd i roi cais am gynnal Gemau'r Gymanwlad ar gyfer y flwyddyn honno. Er bydd sawl Cymro yn teimlo'n anghysurus wrth weld yr hen ymerodraeth Brydeinig yn cael ei choffau a'r gymanwlad yn cael ei atgyfodi a'i ddathlu drwy'r gemau a gynhelir bob pedair blynedd y mae'n gyfle gwych i ni Gymry a phobl y ddinas chwifio'n baneri, a chyhoeddi'n glir ein bodolaeth a'n penderfyniad i arddangos ein talentau.

Mae'r Gemau 2014 wedi costio i Glasgow 524 miliwn o bunnoedd. Nid ar chwarae bach y gellir cael gafael ar y fath swm yn y cyfnod hwn o dorri'r brethyn. Fydd hi ddim yn syndod clywed lleisiau yn holi pa werth a pha fanteision economaidd a ddaw o gynnal y jambori chwaraeon yma.

Fodd bynnag, mae fy nghalon i'n cyffroi wrth feddwl y gallai'r gemau ail ymweld â'n prif ddinas. Nôl yn '58 roedd sawl un yn amau a allai cenedl a gwlad mor fach fedru cynnal y fath gyfarfod chwaraeon. Wedi'r cyfan, newydd gael ei gwneud yn brifddinas oedd Caerdydd a Chymru newydd gael ysgrifennydd gwladol. Roedd ein llwyddiant ym Mharc yr Arfau ac yn arbennig yn y cylch bocsio, gyda Howard Winston yn ennill yr aur, yn fodd i orfodi Llundain a'r llywodraeth i gydnabod y Ddraig Goch yn faner swyddogol ein gwlad. Gwaddol arall oedd gwneud bocsio yn gamp boblogaidd a llwyddiannus yn y 70au a'r 80au.

Eisoes mae mwy o bobl i'w gweld yn mentro ar heolydd Caerdydd ar eu beiciau. Golygfa gyffredin yw rhedwyr o bob oed yn loncian. Mae yna fwrlwm yng nghyngreiriau pêl-droed a rygbi'r ddinas, gyda'r perci yn llawn o'r ifanc yn cystadlu. Ac wrth syllu'n fanylach sylweddolir bod yna lawer o glybiau chwaraeon prysur gan gynnwys tri chlwb rhwyfo ar y Taf, dau glwb seiclo heb sôn am y canolfannau hamdden a'u dosbarthiadau niferus. Ac hoff gyrchfan llawer llanc ifanc nos Sadwrn yw Clwb Ieuenctid Caerdydd a chyffro y rhedeg rhydd.

Diddorol a chyffrous felly yw gweld y Cyngor a'r llywodraeth yn paratoi'r fath gais. Tybed beth fydd y gwaddol y tro hwn? Dinas ddi-draffig llawn beicwyr a dinasyddion heini? Efallai byddai llwyddo i ddenu a threfnu'r gemau yn ei dro, yn arwain at Senedd a Llywodraeth effeithiol gref. Ie, a hyder yn ein hunaniaeth. Ar eich marciau…barod…

**Gwefan Y Dinesydd:**
**www.dinesydd.com**

# DINESYDD DIGIDOL?

Mae'r datblygiadau yn y maes cyfathrebu digidol wedi mynd bron y tu hwnt i bob dirnadaeth yn ddiweddar, a'r teclyn bach yna yn eich llaw, y ffôn symudol, yn gallu cyflawni gwyrthiau. Ac eto, i'r genhedlaeth ifanc, mae'r holl beth bron mor naturiol ag anadlu!

I 'nghenhedlaeth i, a rhai ohonon ni'n gallu cofio gwneud ein gwaith cartref yng ngolau cannwyll, roedd dyfodiad y teledu du a gwyn yr un mor wyrthiol. Felly, yn enw 'cynnydd', gwell i ni gofleidio'r newidiadau digidol yma. Bydd rhai ohonon ni'n straffaglu ond, fel gyda rhai pethau eraill mewn bywyd, 'sdim rhaid deall popeth cyn cael budd ohonyn nhw.

Yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* fe soniais i am anogaeth Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg, i'r Papurau Bro ddatblygu i'r maes digidol. Dyw hyn ddim yn rhywbeth i'r *Dinesydd* ei anwybyddu os ydyn ni am fod mewn bodolaeth yn y degawd nesa. Felly mae pwyllgor y *Dinesydd* wedi dechrau trafod gyda rhai 'partneriaid allweddol', y syniad o ddatblygu gwefan a all ddatblygu i fod yn ffynhonnell newyddion byw a gwybodaeth ddefnyddiol o bob math – a hynny ar gael ar lein drwy'r dydd bob dydd, ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Mae nifer fawr o gymdeithasau a chlybiau a sefydliadau Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro, a miloedd o Gymry Cymraeg a allai weld y math hwn o rannu newyddion yn beth defnyddiol a chyffrous. Mae hyn eisoes yn digwydd trwy gyfrwng y Saesneg mewn sawl ardal yng Nghymru ac mae Papurau Bro eraill yn ystyried y syniad. Wrth gwrs, os daw hyn i fodolaeth, bydd yn bownd o gael rhyw effaith ar natur a ffurf y *Dinesydd* printiedig, ond ni fydd yn ei ddisodli. Awn amdani, felly, rhag i ni gael ein gadael ar ôl!

Un o'r 'partneriaid allweddol' yw'r Ysgol Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Sara Moseley yn gymrawd gwadd yn yr Ysgol, ar secondiad o Lywodraeth Cymru lle mae hi'n Gyfarwyddwr Cyfathrebu, ac am y tair blynedd nesaf un o'i gorchwylion fydd sefydlu Canolfan Newyddiaduraeth Gymunedol. Mae hi'n frwd iawn i helpu'r Dinesydd i symud i'r maes digidol ac mae hi'n gallu cynnig cyngor a chymorth ymarferol – gan gynnwys adolygiad o'r anghenion a'r posibiliadau ac, yn hollbwysig, hyfforddiant.



Mae Tafwyl yn cael tipyn o sylw yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd, ac mae'n haeddu pob clod a chefnogaeth. Wel, pan ddaw Tafwyl i'r Castell dydd Sadwrn y 15fed o Fehefin eleni, gobeithio y byddwn mewn sefyllfa i roi tipyn o sylw i'r Dinesydd Digidol.

Bryan James

# YSGOLION

## Ysgol Bro Edern

**Llwyddiannau chwaraeon**

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol:

- Rivel Mardenborough am gael ei ddewis i fod yn aelod o garfan Ysgolion Caerdydd (Pêl-droed)
- Iwan Williams am gael ei ddewis i gynrychioli Caerdydd a'r Fro yn y 'Cross Challenge' (Traws-gwlad)
- Tîm pêl-rwyd yr ysgol am gystadlu yn wych yn erbyn holl ysgolion de Cymru yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr URDD yn UWIC yn erbyn merched o flynyddoedd 7 ac 8. Fe enillon nhw un gêm, un gêm gyfartal a cholli 2.
- Catelyn Carling am ddod yn ail yng nghystadleuaeth gymnasteg Eisteddfod Sir yr Urdd ac i Christine Holland a Freya Parker am ddod yn drydydd.

**Chwaraeon rhynglysol**

Ar Ragfyr 12fed cynhaliwyd gweithgareddau chwaraeon am y tro cyntaf erioed gyda phob un disgybl yn frwd iawn i gynrychioli ei lys; Rhymni, Hafren neu Taf. Cafwyd gemau rygbi, pêl-droed, pêl-fasged a hoci gyda Rhymni yn ennill y gystadleuaeth. Amser cinio daeth pawb ynghyd yn y gampfa i wylio'r athrawon yn chwarae pêl-fasged yn erbyn y disgyblion. Gêm agos ond yr athrawon enillodd!

**Diwrnod ABCh**

Ar Ionawr 28ain cynhaliwyd Diwrnod Ymwybyddiaeth Diwydiannol yn yr ysgol. I ddechrau'r diwrnod cafwyd cyflwyniad gan Mrs J. Lee o gwmni *Londsdale Commercial Bodybuilders* a chafodd y disgyblion gyfle i greu busnes golchi ceir mewn grwpiau er mwyn dysgu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y diwrnod. Yna gosodwyd y disgyblion i mewn i grwpiau newydd er mwyn derbyn y brîff. Y brîff oedd i ddylunio a marchnata clawr iPod. Y dasg gyntaf oedd dewis enw ar gyfer y cwmni a hefyd cadeirydd a Phrif Weithredwr i fod yn gyfrifol am drefnu pawb arall yn y grŵp! Cyfrifoldebau ar gyfer gweddill y grŵp oedd marchnata'r cwmni, dylunio'r clawr iPod, cyfrifo costau a bod yn rhan o'r tîm busnes. Roedd angen i'r disgyblion fynychu gweithdai er mwyn datblygu sgiliau cyn dod yn ôl fel grŵp er mwyn creu cyflwyniad marchnata'r clawr ipod. Cyflwynodd y grwpiau i Mrs Lee a Mr Williams. Grŵp 'My case' enillodd. Canmolodd Mrs Lee y disgyblion ar eu sgiliau busnes!

**Clwb ffasiwn**

Bob dydd Gwener mae criw o ferched yn dod at ei gilydd i glwb ffasiwn. Ym mis Chwefror daeth ymwelydd arbennig i siarad gyda'r merched ac i rannu ei phrofiadau o weithio yn y byd ffasiwn. Mae Erin Dafydd yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Plasmawr ac yn chwaer i Miss Fflur Dafydd, ein Pennaeth Celfyddydau Perfformio yma ym Mro Edern. Ar ôl cyfnod o astudio ffasiwn yn Llundain mae Erin wedi cael swydd gyda chwmni dillad H&M. Roedd merched y clwb ffasiwn wrth eu boddau yn cael gwrando ar ei phrofiadau yn cynllunio dillad arbennig ac



*Erin Dafydd yn trafod gyda'r clwb ffasiwn*

fe gawson nhw gyfle i gynllunio rhai eu hunain yn ystod y sesiwn hefyd. Efallai bod Donatella Versace arall yn eu mysg!



*Dylunio caled*

## Ysgol Bro Eirwg

**Academi Jamie Baulch**

Cafodd y plant brofiad bythgofiadwy wrth i Academi Jamie Baulch ymweld â'r ysgol. Yn ystod yr ymweliad llwyddodd bob un plentyn i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addysg gorfforol. Siaradodd John Regis yn wych â'r plant gan bwysleisio bod gan bawb gyfraniad gwerthfawr i'w wneud drwy fod yn aelod o dîm, ac fe'u hysbrydolwyd i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo ym mhob agwedd o'u bywydau trwy weld medal aur John Regis a gwrando ar ei brofiadau personol. Cafodd pawb eu llun wedi tynnu gyda John Regis ac mae rhai rhieni wedi sôn am ddylanwad adeiladol ei sgwrs ar feddylfryd eu plant tuag at addysg gorfforol.

**Cynllun Maint Cymru**

Rydym fel ysgol yn cefnogi'r fenter yma yn frwdfrydig iawn. Cyflwynodd y Clwb Eco wasanaeth arbennig er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion yr ysgol gyfan o'r ffordd mae y fforestydd glaw yn prysur ddiflannu. Paratowyd cyflwyniad arbennig a throsglwyddwyd

ffeithiau allweddol gan aelodau'r Clwb Eco. Dangoswyd ffilm fer yn darlunio'r newidiadau sydd yn digwydd ar ein daear. Er mwyn ceisio chwarae rhan bach i newid yr effeithiau yma mae plant yr ysgol wedi bod yn llenwi bagiau glas â hen ddillad er mwyn eu hailgylchu a chyfrannu'r arian tuag at y cynllun arbennig hwn.

**Gŵyl Ddawns y Sherman**

Mae dawnswyr yr ysgol yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer perfformio yng ngŵyl ddawns y Sherman. Cawsant brofiadau gwych yna llynedd ac rydym yn edrych ymlaen at wylio'r perfformiad eto eleni.

**Techniquest a Chanolfan yr Urdd**

Mae plant Blwyddyn 2 y edrych ymlaen yn fawr at fynd i Techniquest ar gyfer sioe Cymraeg 'Gwledydd y Byd' er mwyn dysgu am fywyd pobl mewn gwledydd cyferbyniol. Byddan nhw hefyd yn ymweld â Chanolfan yr Urdd ac yn mwynhau gweithgareddau arbennig yn y Ganolfan.

**Castell Caerdydd**

Mae Blwyddyn 5 yn brysur yn astudio Oes Victoria ac fe fwynhawyd y profiad o deithio nôl mewn amser wrth chwarae rôl yng nghastell Caerdydd – ffordd wych o ddysgu ffeithiau am y cyfnod wrth wneud gwaith ymarferol. Ymunodd y Pennaeth o Rennes, a oedd yn ymweld â Bro Eirwg ar y pryd, gyda nhw.

**Ffilmio ar S4C**

Edrychwn ymlaen yn fawr at weld plant Blwyddyn 3 yn ymddangos ar y rhaglen 'Ben Dant' cyn hir.

## Ysgol Gymraeg Llundain

### Dydd Gŵyl Dewi tipyn yn wahanol i dair o ferched Caerdydd

Dechreuodd y dair athrawes ar eu gyrfa addysgol yn yr un ysgol yng Nghaerdydd. Erbyn hyn, nhw yw'r unig 3 athrawes mewn ysgol "bentref" unigryw yn Llundain.

O brifddinas i brifddinas, mae Julie Sullivan, Rachel Rawlins a Nia Bryant wedi teithio ar hyd yr M4 i ymgymryd ag un o'r heriau addysgu mwyaf anghyffredin yn unrhyw le ym Mhrydain.

Yng nghysgod Stadiwm Wembley, mae'r tair yn addysgu 44 o blant drwy gyfrwng y Gymraeg.



*Julie Sullivan, Rachel Rawlins a Nia Bryanta rhai o blant Ysgol Gymraeg Llundain*

Mae gan *Ysgol Gymraeg Llundain* un ysgol yng Nghaerdydd - *Ysgol Gymraeg Glantaf* - i ddiolch iddi am ei staff addysgu newydd i gyd.

Dywedodd Pennaeth newydd Ysgol Gymraeg Llundain, Miss Sullivan wrth y *South Wales Echo*:

*"Mae'n wych gallu symud i Lundain a dal i ddefnyddio'r iaith Gymraeg bob dydd. Mae gan Ysgol Gymraeg Llundain deimlad cryf o gymuned, fel ysgol bentref Gymraeg wedi'i chludo i galon Llundain".*

Ar hyn o bryd, ariennir yr ysgol drwy ffioedd a chymorthdaliadau. Mae'r 3 athrawes o Gaerdydd yn gobeithio llywio Ysgol Gymraeg Llundain i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o fewn strategaeth "free school" (ysgol ddi-dâl) a'i hariannu gan y wladwriaeth.

Mae'r athrawon wedi ymgymryd â mwy nag unrhyw un o'u rhagflaenwyr gyda meithrinfa lawn amser yn awr yn rhan o'r ysgol. Sefydlwyd yr ysgol dros hanner canrif yn ôl.

I gael mwy o wybodaeth, a fyddech chi cystal â chysylltu â Miss Sullivan yn yr Ysgol Gymraeg.

Ysgol Gymraeg Llundain c/o Stonebridge Primary School, Shakespeare Avenue, Llundain NW10 8NG

**Ffôn/Ffacs**: 0208 965 3585

**E-Bost**: headlondonwelsh@hotmail.co.uk

## Ysgol Nant Caerau

**Chwaraeon**

Llongyfarchiadau mawr i Georgia Hancock o flwyddyn 5 ar ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd ac yn 8fed yng Nghystadleuaeth Ysgolion Caerdydd a'r Fro. Perfformiadau ffantastig.

Am y tro cyntaf yn ein hanes cymerwyd rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yng Ngerddi Soffia.

**Ymweliadau**

Aeth Tomos Gamble, Ffion Holst ac Adina Malik i stwdios Boomerang i ffilmio'r rhaglen Pendant. Cawsant brofiad anhygoel ac edrychwn ymlaen i'w gweld ar y sgrin.

Bu plant CA2 ar drip i weld Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd a chafwyd y cyfle i chwarae rôl yn ystafell y wasg. Diwrnod bendigedig!

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 i Lyfrgell Trelái i ddysgu am waith y llyfrgell. Cawsant groeso cynnes a chyfle i fenthyg llyfr. Diolch i staff y llyfrgell am eu hamser a'u croeso.

**Llyfrgell Nant Caearau**

Bu Mr James a Mrs Hughes Jones yn brysur yn troi'n llyfrgell yn awyrgylch glyd a chartrefol i'w defnyddio'n ddyddiol. Gallwn archebu mwy o lyfrau gyda'r arian a godwyd trwy wahanol weithgareddau. Un o'r gweithgareddau oedd talebau 'Box Tops' a gododd £180.34. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a chofiwch ein bod yn parhau i gasglu'r talebau.

**Gwasanaethau**

Diolch yn fawr i Mr Emyr James a Mr Adam Coleman a ddaeth atom i gynnal gwasanaethau.

**Wythnos Ddiogelwch ar y We**

Cawsom lawer o weithgareddau am e-ddiogelwch a chynhaliwyd cystadleuaeth creu poster. Llongyfarchiadau i'r enillwyr.

**Newyddion o'r ystafell athrawon**

Dymuniadau da i Mrs Zöe Brooks, adran Derbyn, yn ei swydd newydd yn y Gwasanaeth Iechyd. Rydym yn drist i'w cholli a diolch iddi am ei holl waith caled. Croeso i Miss Sian Hill sy'n ymuno a thîm y Derbyn. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mr Adrian James, ein gofalwr ar ei ddyweddiad yn ddiweddar gyda Mel Newell un o athrawon Ysgol Pencaerau.

## Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

**Llongyfarchiadau** – Henry Morris ar ennill y Gystadleuaeth Iau, a Gwen Lynch ar ennill y Gystadleuaeth Hŷn ar noson Cerddor Ifanc Plasmawr 2013 yng nghanol mis Chwefror. Noson arbennig, gwledd o gerddoriaeth yng nghwmni cerddorfa'r ysgol a 10 o gystadleuwyr yn derbyn canmoliaeth mawr gan y beirniaid.

Mr Gwion Morris ar gael ei benodi'n Bennaeth y Gyfadran Wyddoniaeth a Mr Trystan Williams fel Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Bro Edern.

Betsan Jenkins o flwyddyn 11 am cael ei dewis i'r tîm trawsgwlad o dan 17 Cymru. 4 yn unig sydd yn y tîm, a Betsan yw'r unig un o Gaerdydd a'r Fro.

**Ymweliad** – Daeth Mr Alun Davies, Pennaeth Glantaf, i'r ysgol i siarad â disgyblion blwyddyn 12 a 13 am ei waith ffotograffiaeth. Cafwyd prynhawn difyr yn trafod y technegau a'r prosesau mae'n eu defnyddio wrth greu ei ffotograffau gan gynnwys y llun o Yr As Fach / Nash Point gafodd ei ddewis i'w argraffu yn y llyfr 'Landscape Photographer of the Year'.



*Mr Alun Davies yn trafod ei waith ffotograffiaeth*

**Angen Gwirfoddolwyr** – Os oes gennych chi awr a hanner yn rhydd rhwng 9 a 10.30 rhyw fore unwaith yr wythnos i wrando ar blant yn darllen yn y Gymraeg, tybed a hoffech chi ymuno a chriw hapus o wirfoddolwyr yn y Bloc Cynnal Dysgu? Cewch baned o de neu goffi ffres, croeso cynnes a'r cyfle i gwrdd â disgyblion brwdfrydig mewn awyrgylch cartrefol a chefnogol. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Mrs Ruth Davies ar 02920 573938 am sgwrs.

**Pob Lwc** – Bydd Mr Gwyn Jones, 'Anogwr Dysgu' Blynyddoedd 7, 8 a 9, yn cynrychioli'r ysgol wrth redeg Marathon Llundain 2013, ar ran yr elusen Dolen Cymru. Mae'r ysgol wedi cefnogi'r elusen yn y gorffennol, ar ôl creu cysylltiadau cryf â Lesotho. Dangoswch eich cefnogaeth i Mr Jones ac i Lesotho trwy ddilyn y linc isod. https://mydonate.bt.com/events/gwyndolencymru



*Mr Gwyn Jones yn ymarfer cyn mentro ar farathon Llundain*

**Croeso** – i griw o ymwelwyr o Siapan a Sweden yn ystod mis Mawrth.

## Ysgol Y Berllan Deg

**Croeso**

Croeso i Mr Rhisiart sydd wedi dechrau fel cynorthwy-ydd dosbarth gyda ni a chroeso hefyd i Norma Price o Batagonia sydd wedi bod yn arsylwi yn nosbarthiadau Meithrin a Derbyn yr ysgol. Mae Norma yn gweithio yn Ysgol yr Hendre yn Nhrelew.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Williams Jones a'i gŵr Darren ar fabwysiadu efeilliaid. Roedd pawb wrth eu bodd pan ddaeth Mari a Cris i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar.

**Gweithdy Ailgylchu**

Cafodd holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 lawer o hwyl yn y gweithdai ailgylchu a gynhaliwyd yn yr ysgol yn ddiweddar.

**Gweithdy Trydan**

Bu disgyblion Blwyddyn 4 yn hynod o brysur pan ddaeth cwmni Electro City Workshop allan i gynnal gweithdai cyffrous ar drydan gyda nhw.

**Ymweliadau**
Mae sawl blwyddyn wedi bod yn ymweld â mannau diddorol yn ymwneud â'u themâu yn y dosbarth. Aeth Blwyddyn 1 i Sain Ffagan, Blwyddyn 4 i Lancaiach Fawr a Blwyddyn 6 i weithdai 'Crucial Crew' a drefnwyd gan yr heddlu.

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd ym Mhwll Nofio Rhyngwladol Caerdydd ym mis Ionawr.

**Gwobr am Waith Amgylcheddol**
Aeth aelodau o'r Pwyllgor Eco i Ddigwyddiad Llwyddiant Dathlu Ysgolion Iach Caerdydd yn ddiweddar i dderbyn gwobr fel cydnabyddiaeth o waith yr ysgol mewn materion amgylcheddol.

**Twrnament Pêl-droed yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed a ddaeth yn ail yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar (gweler y llun).



*Tîm pêl-droed Y Berllan Deg*

## Ysgol Y Wern

Llongyfarchiadau i'n tîm pêl-droed (merched) a ddaeth i'r brig yng Nghystadleuaeth yr Urdd Caerdydd a'r Fro ar ddechrau'r flwyddyn. Ar ôl atal pob gôl yn y gystadleuaeth cawsant eu coroni yn bencampwyr y dydd. Fe fyddant nawr yn cynrychioli'r Sir yn y Rownd Genedlaethol yn Aberystwyth. Pob hwyl i chi ferched.



*Tîm pêl-droed merched Y Wern*

Fel rhan o lansiad swyddogol Pythefnos Masnach Deg gwahoddwyd ein Pwyllgor Masnach Deg i berfformio yn y Cynulliad. Yn ogystal â hyn daeth ffermwraig o St Lucia i annerch ein disgyblion mewn gwasanaeth arbennig. Diddorol iawn oedd dysgu am daith y bananas o'i fferm hi i'n siopau ni.



*Rhai o'r disgyblion a fu yn lansiad Pythefnos Masnach Deg*



# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

### Tanio

Bu criw o ieuenctid Ebeneser mewn cyfarfod ym Methel, Rhiwbeina ar 8 Chwefror. Testun y noson oedd 'Sefyll yn erbyn y Fasnach Caethwasiaeth yng Nghymru'. Arweinydd y noson oedd Dai Hankey, gweinidog eglwys 'Hill City Church' Pontypŵl. Cafodd yr ieuenctid eu synnu bod y fath fasnach yn bodoli. Trefnwyd y noson gan 'Ignite' sy'n fudiad ieuenctid Cristnogol yng Nghaerdydd. Ewch i'w gwefan www.igniteme.org am fwy o wybodaeth.

### Cydymdeimlad

Mae Ebeneser newydd golli un oedd yn gyfaill annwyl iawn i bawb ohonom ac yn un o golofnau'r eglwys. Bu farw Tom Evans yn ddiweddar ar ôl cyfnod hir iawn o salwch a gwendid. Bu'n weithgar iawn dros yr achos am nifer o flynyddoedd hyd nes i lesgedd ei rwystro rhag ymuno â ni. Er hynny roedd Ebeneser yn agos iawn at ei galon. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf â'i briod Freda, ofalodd yn dyner iawn amdano dros y blynyddoedd, ac â'i ddwy ferch Catrin ac Eleri yn eu colled. Diolch amdano.

### Y Gymdeithas

Ar nos Fawrth, 19 Chwefror cawsom noson yng nghwmni un o gymeriadau Ebeneser, sef Cedric Jones. Yn organydd medrus mae Cedric wedi ein gwasanaethu yn ffyddlon iawn ers nifer o flynyddoedd ond nid cerddoriaeth, na'r organ oedd testun ei sgwrs. Yn hytrach ac yn addas iawn, 'Cymeriadau' ddewisodd yn destun gan sôn am ambell i gymeriad ddaeth ar eu traws yn ystod ei blentyndod, ieuenctid; ei gyfnod yn y BBC ac yna yn Andante, sefydlwyd ganddo ym 1997. Prin fod rhaid dweud y bu cryn dipyn o chwerthin yn ystod y noson. Diolch iddo am noson ddiddorol a hwyliog.

### Masnach Deg

Alffa

Mae'n fwriad gennym gynnal y cwrs hwn sy'n gyflwyniad i Gristnogaeth, cyn bo hir. Mae'n ein herio ac yn gyfrwng i drafod. Gall newid eich bywyd am byth. Os oes gennych ddiddordeb i ymuno â ni, anfonwch e-bost i ebeneser@btinternet.com

## Salem, Treganna

### Bedyddiadau

Bedyddiwyd tad a mab ddechrau Chwefror, Iestyn ac Ifan, ac Ifan yn fab i Iestyn a Manon. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

### Clwb y Bobl Ifanc

Bu clwb y bobl ifanc yn mwynhau noson werth chweil yn Bowlio deg ganol Chwefror yn y bae.

### Clwb Llyfrau Salem

Cafodd y clwb hwyl yn trafod 'Helyntion Hogan Wyllt' gan Mari Jones-Williams.

### Adran yr Urdd

Mae'r adran yn cwrdd yn gyson bob wythnos ar nos Iau i wneud celf a chrefft ar gyfer yr Urdd ac maent wrthi'n paratoi eitemau llefaru a'r côr ar gyfer yr eisteddfod sir. Pob lwc i adran Salem!

### Y Clwb Brecwast / Y Clwb Coffi

Croeso i rieni a phlant o dan oed cynradd i ymuno â ni ddwywaith y mis ar fore Mercher. Hefyd, mae'r clwb coffi'n cyfarfod yn Salem yn ystafell Edwin unwaith y mis ar fore Gwener.

### Cylch Trafod Beiblaidd

Cyfarfu'r clwb trafod Beiblaidd i drafod Y Deg Geneth – Mathew 25: adnodau 1-13.

### Grŵp Canu

Cafwyd nifer o ymarferion bywiog o'r clwb canu yn ystod Chwefror. Edrychwn ymlaen at eu clywed yn fuan!

## Tabernacl

### Cofio Margaret Foulkes

Diwedd mis Ionawr bu farw Margaret Foulkes. Bu'n selog i'r Tabernacl am flynyddoedd hir, ac roedd mor falch o'i theulu a'i thras yn Sir Benfro. Treuliodd amser fel athrawes Ffrangeg yn Ysgol Cardiff High.

### Chwiorydd

Bu'r gymdeithas hon yn ddiolchgar i Siân Phillips, Pen-y-bont, merch Megan a Herbert Phillips, am rannu ei phrofiad wrth ymweld â Pheriw. Hefyd diolch i Wil Morris Jones o Bontypridd am iddo gyflwyno lluniau yn sôn am brosiect Bangla. Bu'r cyn brifathro ac arweinydd corawl yn egnïol gyda'r prosiect ers tro, ac yn awyddus i rannu'r hanes am ofid ac anghenion plant yn y wlad honno.

### Cymdeithas Nos Fawrth

Gwerthfawrogwyd noson o gwmnïa hwyliog ar ffurf cwis gyda Rob Nicholls a Rhodri ab Owen yn gwis feistri tan gamp. Tîm Rhys ab Owen, Angharad Watkins, Eluned Owen Rook a Marc Jon Williams a ddaeth i'r brig, ac maent yn barod i drefnu cwis tebyg yn rhaglen y flwyddyn nesaf.

### Sbloets Sadwrn

Ailgychwynnodd y Sbloets ar brynhawn Sadwrn olaf mis Ionawr. Bydd Marc Jon yn ddiolchgar i glywed gan unrhyw deulu a fyddai am ddod i'r sesiwn hwyliog hwn, sy'n gymysgedd o waith crefft ar thema sy'n effro i luniau Beiblaidd.

### Bore Coffi

Mwynhawyd orig ar aelwyd Margaret Raymond Williams yn ystod mis Ionawr ac fe'n gwahoddwyd ym mis Chwefror i aelwyd Alan ac Alwen Kemp yn Llysfaen – diolch am eu croeso.

### Dathlu Dauganmlwyddiant

Bydd 2013 yn flwyddyn brysur wrth i nifer o ddigwyddiadau fynnu sylw'r eglwys. Mae llyfr ar waith yn cofnodi hanes yr eglwys o dan olygyddiaeth yr Athro John Gwynfor Jones a'r Gweinidog, ac mae Beryl Eurig, Marc Jon Williams a Rhodri ab Owen yn cynllunio arddangosfa o luniau ac arteffactau ar gyfer yr haf.

Bydd coflech yn nodi enwau'r gweinidogion yn cael ei osod ar wal y capel yn fuan, a bwriedir trefnu bwrdd arddangosfa hanesyddol ar gwrt y capel a fydd yn ddarllenadwy o'r stryd.

**Pipeathon 2013**

Beth am noddi darn o organ bib odidog y Tabernacl? Ddydd Sadwrn, Mawrth 16eg, bydd tri organydd yn canu'r organ am bron i ddeuddeg awr, er mwyn codi'r £15,000 sydd ei angen i gwblhau'r broses o adnewyddu'r organ. Bydd y tri'n gwisgo crysau rygbi Cymru ar ddiwrnod y gêm fawr rhwng Cymru a Lloegr.

## Eglwys Dewi Sant

**Dydd Mercher Y Lludw**

I nodi dechrau tymor y Garawys cafwyd gwasanaeth hyfryd o'r Cymun Bendigaid ar gân gydag arnodiad lludw gyda'r côr yn ychwanegu at awyrgylch y gwasanaeth gyda'i dehongliad o'r anthem Parce Domine gan Simone Oliveri.

**Cerdded trwy'r Garawys**

Hwn oedd teitl y bore tawel a drefnwyd gan yr is-bwyllgor Cenhadu a Bugeilio fel rhan o'i ymgais i adeiladu ar fywyd a gwaith Eglwys Dewi Sant yng nghyd-destun strwythur yr esgobaeth sef Y Saith Gofod Sanctaidd. Bwriad y bore oedd rhoi cyfle a gofod i aelodau'r eglwys ymdawelu o brysurdeb bywyd beunyddiol ac i ganolbwyntio ar eu bywydau ysbrydol wrth ddechrau'r daith trwy'r Garawys. I gynorthwyo yn y dasg o ymdawelu cafwyd dau anerchiad buddiol a chaboledig sef 'Cerdded fel cyfeillion Iesu 'gan Rhian Linecar a 'Chydgerdded ag eraill' gan Dyfrig Lloyd.

Daeth y bore ffurfiol i ben mewn gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid. Cafwyd cefnogaeth dda gyda phawb a oedd yno o'r farn fod ôl trefnu trylwyr ar y bore a'i fod wedi bod o fudd mawr iddynt. Ar y diwedd arhosodd y mwyafrif ar ôl am sgwrs dros bryd o fwyd ysgafn blasus.

## Eglwys y Crwys

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys â'n Gweinidog, y Parch Glyn Tudwal Jones, ar ei brofedigaeth o golli ei fam yn Hen Golwyn. Mae'n meddyliau a'n gweddïau gyda'r teulu oll.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Heulwen Thomas, Llandaf gynt. Bu'n aelod ffyddlon o Eglwys y Crwys am flynyddoedd lawer cyn symud i fyw ger ei theulu yn y Gogledd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i mab, yr Athro Deri Thomas a'r teulu yn eu profedigaeth.

**Cyfarchion**

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Gwen Holt sydd ddim wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar.

Mawr obeithiwn wellhad llwyr a buan iddi ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn cymryd rhan yn ei beunydd weithgareddau yn y Crwys yn fuan.

Dymunwn yn dda i'r Dr. Rebecca Jones sydd wedi mynd i weithio am flwyddyn mewn ysbyty yn Bangladesh. Byddwn yn meddwl amdanat Rebecca.

**Y Grŵp Merched**

Cynhaliwyd noson ddiddorol yng nghwmni Ms Gwen Aubrey gydag anerchiad ar y testun 'Mynwenta'. Cadeiriwyd y noson gan Catherine Jobbins gyda'r defosiwn o dan ofal Kathleen Wood a'r diolchiadau gan Mary Wiliam.

**Y Gorlan**

Yn ôl y disgwyl cafwyd sgwrs hwyliog a diddorol gan Mr. Gwilym Roberts ar ei ymweliad diweddaraf â Phatagonia.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson yng nghwmni Mr. Wil Morus Jones yn sôn am ei gysylltiadau â 'Bangla Cymru' Gwnaed casgliad o £150 i'w gyflwyno i'r elusen.



**Pwyllgor Bugeiliol**

Yn sgil ymddeoliad ein Gweinidog, y Parch Glyn Tudwal Jones, ddiwedd mis Hydref eleni, etholwyd Hywel James, Hanna Jones, Robin Owen, Alun Tobias, Mary Wiliam a Thomas Ellis Williams i ymuno â'r blaenoriaid ar y Pwyllgor Bugeiliol i alw Gweinidog newydd.

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn ddiolchgar am y Parchedig Noel Evans (Yr Eglwys Newydd) a chyd-ymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei fywyd yng Nghapel Minny Street ar Chwefror 14eg.

**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i fedydd yr efeilliaid, Aled Elias Ieuan a Gwion Llŷr Ieuan Widgery, meibion Rhian a Kevin (Pentre'r Eglwys) a brodyr Elis a Mali yn yr oedfa foreol ar Chwefror 3ydd. Pob dymuniad da i'r teulu.


**Croesawu myfyriwr**

Braint fu cael croesawu Dylan Rhys Parry, ymgeisydd am y weinidogaeth yng Ngholeg yr Annibynwyr, i'n plith ym mis Chwefror wrth iddo ymuno â ni yn, a chyfrannu at, ein cyfarfodydd a'n gweithgareddau. Dymunwn yn dda iddo wrth iddo barhau â'i astudiaethau wedi mis arall yng Nghaerdydd gyda chyfeillion Eglwys Ebeneser.

**Taith y bobl ifanc i Bedford yn dilyn troed John Bunyan**

Fe gafodd pymtheg o bobl ifanc Minny Street brofiad anhygoel a llawer iawn o hwyl yn ymweld â Bedford i weld y llefydd roedd John Bunyan wedi bod yn eu mynychu, yn cynnwys lleoliad y carchar lle ysgrifennodd ei lyfr "Taith y Pererin". Hwn oedd uchafbwynt yr astudiaeth trylwyr a manwl o'r llyfr pwysig hwn a fu'r bobl ifanc yn ei wneud yn ystod y misoedd diwethaf o dan law ein gweinidog. Mae'r hanes i gyd yn fanwl ar ein gwefan www.minnystreet.org.

## DINESAIR Rhif 130



### Ar Draws

2. Corlan i'r cyfeiliornus sy'n dychwel (3)
5. Llafur gwael o gwmpas dechrau Ebrill yn creu siarad (6)
7. Gadael ôl ar gar tolciog swnllyd (6)
9. 'Mi sydd ------ ------ ffôl,
   Yn byw yn ôl fy ffansi' (Anad) (6, 5,)
10. Creu hanner hollt yn nhŷ'r falwoden (6)
11. Mae gwg Sid yn ei gadw'n effro (6)
13. Rhyfeddod gweld 500 mewn cymanfa eglwysig (6)
16. 'Er cael gruddiau fel y rhosyn,
   ----- ydyw calon Rhywun '(JB) (6)
18. Aelod Seneddol (2,9)
19. 'Pan ddelo plant y -----
   Yn iach o'r cystudd mawr' (6)
20. 'Gorchymyn yr Arglwydd sydd bur, yn goleuo y -----' (Salmau) (6)
21. Heulwen yn dychwel i'r eisteddle (3)

### I Lawr

1. Man i droi bron yn ofer tua'r goleuni (6)
2. '------ yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr' (Salmau) (6)
3. Cerdd am Nia mewn brwydr (3)
4. Pryd mae cael math o letys i wneud crempog? (6)
6. 'Ffynnon loyw, Bywyd meirw
   ----- ----- ----- ----- yw Duw' (Anad) (3,1,4,3)
8. Y canol yn rhychau dros y lle (11)
10. Cwdyn creulon (3)
12. Dim gwen wrth ddechrau gweithio wedi'r gwyliau (3)
14. Daeth yn rhan o ddymuno ffôl (6)
15. Sŵn dau yn bod yn alluog (6)
16. Dolen o hanner cylch a 12 ceiniog gynt (6)
17. Euthum i ddrysu Gari ar y grib (6)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Ebrill.

---

**Enillydd Croesair Rhif 128 -**

**Gwenda Hopkins, Llanishen**

**Atebion Rhif 128**

**Ar Draws** – 3. Chwibanogl; 6. A marw; 7. Awdurdodi; 8. Ffolineb; 11. Synnu; 12. Sigla; 14. Cewri; 15. Mantais; 18. Dwedwch p'le; 19. Maddau; 20. Ysbrydoli

**I Lawr** – 1. Nad oes dim; 2. Taid a Nain; 3. Chwaethus; 4. Beuno; 5. Godre; 8. Ffigys; 9. Noswaith dda; 10. Bywiol Dduw; 13. Academi; 16. Anwes; 17. Iechyd

---

## Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

### Clwb Sbri Hanner Tymor y Gwanwyn

Cynhaliwyd Clwb Sbri llwyddiannus iawn i blant oedran cynradd yn ystod gwyliau hanner tymor. Roedd sawl peth yn wahanol i'r arfer y tro hwn. Cynhaliwyd y clwb yng nghampfa Ysgol Glantaf (sef yr un lleoliad â'n clwb wythnosol i blant cynradd, sy'n cyfarfod am 17:30 bob nos Lun yn ystod tymhorau'r ysgol). Hefyd penderfynwyd estyn hyd y clwb i dridiau. Roedd y bore olaf yn dipyn o uchafbwynt gan inni logi castell bownsio ymhlith pethau eraill. Ein gobaith yw cynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf, ac fel arfer bydd croeso i unrhyw blentyn oedran cynradd i ymuno â ni. Diolch i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau fod y clwb gwyliau yn llwyddiant mawr unwaith yn rhagor.

### Dysgwyr

Ar fore Sadwrn 16 Chwefror daeth cwmni da i'n cyfarfod dysgwyr er mwyn clywed Emyr James yn sôn am ei brofiadau yn yr Aifft. Cafwyd sgwrs braf a chacen blasus! Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymarfer siarad Cymraeg, croeso i chi ymuno â'r grŵp. Gallwch weld rhaglen y tymor ar ein gwefan, www.cwmpawd.org.

### Cyfarfod Ordeinio

Bellach mae gan yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg dri gweithiwr. Ar 8 Mehefin rydym yn bwriadu cynnal oedfa arbennig yn Eglwys Highfields er mwyn ordeinio a sefydlu Trystan Hallam ac Emyr James i'r weinidogaeth. Mae'r manylion eto i'w cadarnhau, ond bydd croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni ar gyfer yr achlysur hwnnw.

# Calendr y Dinesydd • Mawrth - Mai

**Mawrth, 12 Mawrth**
Merched y Wawr Caerdydd. Cinio Gŵyl Dewi, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 13 Mawrth**
***Cylch Cadwgan. Gareth Miles*** yn siarad ar y testun 'Creu Llanast', yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro M. Wynn Thomas ar y testun '"The Painter's Impressed Brush": Ymateb R. S. Thomas i Luniau', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 15 Mawrth**
Clwb y Diwc. Geraint Lovgreen a Neil Rosser yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 16 Mawrth**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg rhwng 10.30 a 12.00. Am 11.00am, sgwrs gan Lis Williams am Bentre-tŷ-gwyn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 16 Mawrth**
Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Hwyliau'n Codi', yn Neuadd Llanofer, Treganna, am 7.30pm. Tocynnau: wegottickets.com/theatrbaracaws.

**Sadwrn, 16 Mawrth**
Clwb Ifor Bach: Dafydd Iwan a'r Band, 8.00pm. Tocynnau: £10 (www.ticketweb.co.uk).

**Llun, 18 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.00pm.

**Llun, 18 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Dr Emyr Lloyd-Evans (Prifysgol Caerdydd) ar dwbercwlosis a stumog y gell, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Llun, 18 Mawrth**
Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Hwyliau'n Codi', yn Neuadd Llanofer, Treganna, am 7.30pm. Tocynnau: wegottickets.com/theatrbaracaws.

**Mawrth, 19 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) ar y testun '"... pobun â'i lais, ... pobun â'i le": Waldo Williams, Bardd Plant Cymru' gan Dr Mererid Hopwood. Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Bydd derbyniad gwin yn dilyn y ddarlith. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 19 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Owen Pickerill yn sgwrsio am ei ddiddordebau, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 20 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I'r Wladfa yng nghwmni Bob Pugh, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 20 Mawrth – Gwener, 22 Mawrth**
Theatr Genedlaethol Cymru yn perfformio 'Dyled Eileen', drama Angharad Tomos am hanes brwydr Eileen a Trevor Beasley i dderbyn eu bil treth yn y Gymraeg, a chanlyniadau'r weithred honno, yn Sherman Cymru am 8.00pm. Matinée ddydd Iau am 1.30pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Iau, 21 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys 3' dan ofal y Parch. Alun Tudur (Ebeneser), yn adeilad Eglwys Canol y Ddinas (URC), Windsor Place, am 7.30pm.

**Gwener, 22 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Cyfarfod wedi'i ohirio tan 26 Ebrill.

**Iau, 28 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Cinio Pen Tymor, yng Nghlwb Golff Llanisien, am 7.00pm. Gwestai: Parch. Ddr R. Alun Evans.

**Gwener, 29 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Dydd Gwener y Groglith dan ofal y Parch. Glyn Tudwal Jones, yng Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 2.00pm.

**Llun, 8 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif westai: Alwyn Jones. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 9 Ebrill**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Efa Gruffudd Jones, Prifweithredwr Urdd Gobaith Cymru, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 10 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Catrin a'i Phobl.' Sgwrs gan E. Gwynn Matthews, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 10 Ebrill**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Elen Bowman o Theatr Genedlaethol Cymru, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 11 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Rocet Arwel Jones. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Gwener, 12 Ebrill**
***Cylch Cadwgan. Y Prifardd Alan Llwyd*** yn siarad ar y testun 'Kate Roberts' yng Nghampws Cymuned Gartholwg, Pentre'r Eglwys, am 7.30pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Llun, 15 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni'r Parch. Dyfrig Lloyd, Ficer Eglwys Dewi Sant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Gwener, 19 Ebrill**
Clwb y Diwc. Noson yng nghwmni Caryl a Ffrindiau yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 20 Ebrill**
Bore coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg rhwng 10.30 a 12.00. Am 11.00am, sgwrs gan Dewi George am sir Gaerfyrddin. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 24 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Llŷr Gwyn Lewis am ei farddoniaeth, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 26 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd. Yr Athro Richard Wyn Jones yn trafod Cyfansoddiad Cymru, yn festri Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Sul, 27 Ebrill**
Cyngerdd 'Dathlu Deg' Côr CF1 yn Eglwys St German, Adamsdown am 7.00 pm. Ymunwch â Chôr CF1 wrth iddynt ddathlu eu pen-blwydd yn ddeng mlwydd oed eleni, yng nghwmni'r darlledwr a'r newyddiadurwr, Garry Owen, y tenor Wyn Davies a'r Sinfonietta Brydeinig. Tocynnau: £10 / £5 (i blant dan 16), er budd elusen Marie Curie Cancer Care. Manylion pellach: corcf1@gmail.com.

**Mawrth, 30 Ebrill**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) ar y testun 'Tirwedd Lenyddol Gwent' gan Frank Olding. Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (Adeilad y Dyniaethau gynt), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Bydd derbyniad gwin yn dilyn y ddarlith. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 1 Mai**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Nerys Howell, yr ymgynghorydd bwyd, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Gwener, 3 Mai**
***Cylch Cadwgan. Y Prifardd Aled Gwyn*** yn siarad ar y testun 'Crafion', yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Mawrth, 7 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Blynyddol. Sgwrs gan Gareth Miles am ei nofel, *Gaucho Ffos Halen*. Manylion pellach: eirypalfrey@yahoo.co.uk.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

A ninnau ynghanol yr holl gythrwfl a gofid ynghylch ansawdd a natur bwyd yn gyffredinol, calondid oedd cael cwmni Llŷr Dunsford o Gwmni Charcutier yng nghyfarfod mis Chwefror. Mae'n dewis moch sy'n arbennig i Gymru, yn eu magu yng Nghwm Gwendraeth ac yn halltu'r cig yn y dull traddodiadol Cymreig. Ar ôl teithio mor bell ag Iowa yn yr Unol Daleithiau a'r Eidal, Sbaen, Ffrainc a Denmarc i ddysgu'r grefft, bwriad Llŷr yw sicrhau fod y cig moch, y selsig, byrgyrs, ffagots neu bwdin gwaed sy'n cael ei werthu ganddo yn gwbl Gymreig a naturiol. Mae'n rhan o fudiad sy'n hybu twristiaeth bwyd yng ngorllewin Cymru. Roedd ganddo wybodaeth eang o'r cymorth grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd i hybu busnesau bychain; arallgyfeirio i'r maes hwn wnaeth Llŷr o'r diwydiant ffilmio. Cafodd ef a'i gynnyrch groeso brwd gan mai un o Riwbeina yw Llŷr. Bu'n ddisgybl yn Ysgolion y Wern a Glantaf. Os ewch i'r Chapter ar nosweithiau Mercher rhwng 4 a 7 o'r gloch, bydd Llŷr ac eraill yno'n gwerthu eu cynnyrch.



*Llŷr, Mair a Gwilym yn paratoi byrgyrs*

## Merched y Wawr Bro Radur

Nos Wener, Ionawr 25ain, daeth nifer dda o aelodau, ffrindiau a rhai gwŷr ynghyd i Glwb Golff Radur i ddathlu gŵyl Santes Dwynwen. Roedd yn braf cael dod at ein gilydd, yn gwmni diddan, wedi wythnos arw a thrafferthus.

Arweiniwyd y noson yn hwyliog gan John Evans. Cafwyd pryd o fwyd a chawsom sgwrs gan Gill Griffiths, ein Llywydd Cenedlaethol. Siaradodd am ei hamcanion yn ystod ei thymor llywyddol. Anogodd yr aelodau i fynd ati i ysgrifennu drama i ferched yn unig, gogyfer â chystadleuaeth y Mudiad. Gofynnodd i ni roi o'n hamser i gynorthwyo'r Dysgwyr yn ein plith. Cawsom ein herio i gerdded llwybrau Cymru er lles ein hiechyd. Atgoffodd ni o'r bwriad i gasglu bob math o fagiau i'w gwerthu, gyda'r elw yn mynd at gynorthwyo'r difreintiedig yn Ethiopia.

Yna fe'n diddanwyd gan aelodau o gôr y Waunddyfal. Afraid dweud i ni gael gwledd gerddorol dan arweinyddiaeth ddisgybledig yr amryddawn Huw Ffoulkes.

Diolchodd ein Llywydd, Carys Tudor Williams, yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.



*Yn y llun (o'r chwith i'r dde) – Carys Tudor Williams, John Evans a Gill Griffiths.*

## MERCHED Y WAWR CAERDYDD

Nos Fawrth 12fed o Chwefror daeth Christine James aton ni a chawsom noson arbennig yn ei chwmni. Dewisodd Christine, trwy adrodd barddoniaeth o'i gwaith, adrodd ei thaith o'i magwraeth mewn teulu di-Gymraeg, dosbarth gwaith ond diwylliedig yng nghymoedd y de i fod yn Archdderwydd. Yn ogystal â darllen ei gwaith roedd Christine wedi rhoi ei barddoniaeth ar uwchdaflunydd felly roedd cyfle i ddarllen yn ogystal â gwrando arni ac yn sicr roedd hyn wedi ychwanegu at brofiad y noson.

Bwriadai astudio daearyddiaeth ym mhrifysgol Aberystwyth ond syrthiodd mewn cariad a llenyddiaeth Gymraeg yn ei blwyddyn gyntaf ac aeth ymlaen i raddio yn y Gymraeg ac ysgrifennu creadigol. Yn ddiweddarach golygodd destun o Gyfraith Hywel Dda, cyfreithiau hanesyddol Cymru, ar gyfer gradd doethuriaeth.

Ddeg mlynedd yn ôl tra mewn cynhadledd yn America, cafodd ei tharo'n sâl. Yn dilyn pwl o wendid teimlodd newid ysbrydol ynddi ei hun a chafodd ei hannog gan ffrind i ysgrifennu am ei theimladau a dechreuodd, yn ei geiriau ei hun 'potshan gyda geiriau'. Darllenodd ddarn am ei hamser yn yr ysbyty yn Cambridge, Massachusetts 'cyffyrddiad trais, goslef llaw'. O'r amser yma hefyd darllenodd gerdd a ysbrydolwyd gan ddarlun Pablo Picasso Noethlun glas. Teitl ei cherdd yw 'Ynysig' (hunllef) am ei hunllefau ei hun yn dilyn yr afiechyd. Cystadleuodd yng ngherdd y goron yn 2004 cyn mynd ymlaen i ennill y goron yn Eisteddfod y Faenol 2005 gyda cherdd wedi'i symbylu ar luniau ecffrastig – term sy'n disgrifio math arbennig o ddarluniau. Ei hysbrydoliaeth oedd llun Raphael, Madonna a'r Geian/The Madonna of the Pinks.

Eglurodd bod llawer o'i barddoniaeth yn deillio o brofiadau personol fel yr un am ffarwelio â'i mab hynaf yn y maes awyr pan oedd yn mynd i ffwrdd ar flwyddyn gap.

Mae tripiau tramor ac ymweliadau ag Amgueddfeydd hefyd yn symbylu ei barddoniaeth ac un o'r pethau y mae'n edrych ymlaen ato yn rhinwedd ei swydd fel Archdderwydd yw'r ymweliadau tramor yn arbennig i'r gwyliau diwylliannol yn y gwledydd Celtaidd. Edrychwn ymlaen at noson arall yn ei chwmni ac i glywed mwy o'i barddoniaeth a dymunwn bob hwyl i Christine yn ei chyfnod fel Archdderwydd.

# Timau Pêl-droed Clwb Cymric

Cafwyd sawl gêm anodd i dîm cyntaf Clwb Cymric yn mis Chwefror, a chyflwr y caeau ddim yn helpu arddull chwarae'r tîm. Ond serch hynny, casglwyd deg pwynt allan o'r deuddeg posib, a Cymric yn dal gafael yn safle uchaf y tabl. Curwyd AFC Bargoed o ddwy gôl i un ar ddechrau'r mis, goliau yn yr ail hanner gan Steve Cope ac Osian Pritchard yn achub y dydd ar ôl bod yn colli ar hanner amser. Ennill eto ar y Sadwrn nesaf oddi cartef yn Hirwaun, dwy gôl i ddim y tro hwn gydag Osian Lloyd yn sgorio un ac yn gosod y llall ar blât i Tom Pritchard.

Wedyn cafwyd gêm galed yn erbyn Pencoed Athletic, tîm arall yn cystadlu tua brig y tabl, a Cymric yn hapus i gasglu pwynt wrth i Rob Davies sgorio yn y funud olaf un i wneud y sgôr derfynol yn ddwy gôl yr un. Wedyn ar Sadwrn olaf Chwefror cafwyd buddugoliaeth o dair i ddim yn erbyn Llanhari, goliau gan Caio Iwan, Tom Pritchard a Huw Jones o'r smotyn.

Mae nifer o gemau oddi cartref eto yn mis Mawrth a fydd yn gadael Cymric gyda sawl gêm cartref yn mis Ebrill i orffen y tymor. Gobeithio'n wir y bydd y Clwb yn



*Golwr Llanhari yn casglu dan bwysau gan Owi Jones ac Osian Lloyd*


dal i gystadlu tua'r brig, gyda cyfle go iawn i frwydro am safle yn y tri uchaf, a dyrchafiad o Ail Adran Cynghrair Amatur De Cymru yn nhymor cyntaf y clwb erioed ar y safon yma.

Gan fod yr ail dîm, a'r tîm ieuenctid yn dibynnu ar gaeau Cyngor Caerdydd, yn anffodus roedd prinder gemau unwaith eto ym mis Chwefror - yr ail dîm yn colli dwy gêm gwpan yn erbyn Splott Cons a Canton Liberal, a'r tîm dan ddeunaw'n curo Caerau o ardal Maesteg o ddwy gôl i ddim, ond wedyn colli o dair gôl i ddwy yn erbyn tîm ieuenctid Clwb Pêl-droed Pen-y-bont.

# Cwins Caerdydd

**Cwins Caerdydd v Dowlais, 15 Chwefror**

Mae bywyd yn y drydedd adran yn gallu bod yn galed. Enillodd y Cwins ddyrchafiad llynedd, a dechreuodd y tymor yn addawol, wrth iddyn nhw gipio 5 buddugoliaeth o'r bron. Serch hynny doedd y canlyniadau diweddaraf ddim yn ennyn hyder wrth iddynt groesawu tîm sydd yn glir ar frig yr adran. Rygbi gorau pnawn hyfryd o wanwyn cynnar ar y Maes Diamwnt oedd cais ysgubol y Cwins ar ddechrau'r ail hanner. Fe'i naddwyd yn nyfnderoedd eu 22 metr eu hunain ac fe ychwanegodd rhediad nodweddiadol y cefnwr Paul Adams y cyffyrddiadau olaf angenrheidiol. Gwaetha'r modd nid oedd hyn ond megis fflach sydyn o heulwen yn torri trwy gymylau bygythiol ymosodiadau cyson Dowlais. Er bod y blaenwyr cartref yn gwneud mwy na dal eu tir, roedd yn amlwg pam mai'r ymwelwyr sydd ar y brig – pac bywiog, olwyr clou oedd ar adegau pwysig yn gallu tynnu'r dyn a phasio'n slic, maswr oedd yn cicio'n



*Cwins v Dowlais* *Llun: Irfon Bennett*

swmpus i sicrhau tiriogaeth ac ar ben hyn i gyd agwedd glinigol pan oedden nhw'n ffroenu'r llinell gais.

Dau gais yn unig ddaeth i Dowlais yn yr hanner cyntaf. Roedd gweld un o'u propiau'n ymlwybro tua'r ystlys wedi derbyn carden goch, yn ogystal â chais arbennig cefnwr y Cwins, a ddaeth â'r sgôr yn 13-22, yn hwb i'r galon. Dagrau pethau oedd bod colli prop wedi chwarae i mewn i ddwylo'r ymwelwyr. Yn fuan yn yr ail hanner, pan ddatblygodd un arall o'u rheng flaen anaf, ni phetrusodd llumanwr Dowlais rhag awgrymu i'r dyfarnwr y dylai'r sgrymiau droi'n rhai goddefol. Yn ddigon diddorol, dyma'n union ddigwyddodd y tro diwethaf i'r Cwins chwarae yn eu herbyn. Cafodd perfformiad grymus blaenwyr y tîm cartref ei danseilio, a daeth cyfres o geisiadau gan dîm hyderus y cymoedd. Daeth tri chais yn y chwarter awr olaf. Carlamodd y sgôr i 13-41, gan adael Dowlais yn enillwyr clir iawn.



*Cwins v Dowlais* *Llun: Irfon Bennett*

Fel sy'n digwydd yn gyson yng ngemau cartref y Cwins, un fantais a gafodd y tîm ymweld oedd anogaeth leisiol frwd eu cefnogwyr niferus o'r ystlys. Mae llawer o chwaraewyr y Cwins yn gynnyrch ysgolion Cymraeg Caerdydd. Felly, beth amdani, Gymry Cymraeg yr Eglwys Newydd? Os nad ydych eisoes yn cefnogi CRCC, wrth gwrs, beth am ddod draw a chodi llais? (Cwins v. Aberdâr 23 Mawrth, 2.30).